

CIPOLWNG

NEWYDDION

WISERD wedi'i amlygu fel
'adnodd o bwys' yn Adolygiad
Diamond

YMCHWIL

Darllen y wybodaeth
ddiweddaraf am brosiectau
ymchwil WISERD

DIGWYDDIADAU

Lansio Canolfan
Gwleidyddiaeth a Chymdeithas
Gymraeg WISERD

WISERD
Changing the research
landscape of Wales
Newid tirwedd ymchwilio
yng Nghymru

SEFYDLIAD YMCHWIL CENEDLAETHOL

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Abertawe

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cyrhaeddiad Ymchwil WISERD	3
WISERD wedi'i amlygu fel 'Adnodd o Bwys' yn Adolygiad Diamond	4
Proffil Incwm WISERD	5
Prosiectau wedi'u hariannu WISERD	6
Lansio Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Gymraeg Newydd WISERD	7
IMAJINE – Llwyddiant Ariannu Horizon 2020	8
Cyllid Seilwaith Ymchwil (RIF) ar gyfer Addysg WISERD	9
Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion	10
Ymchwil Ehangu Mynediad	10
Pobl Ifanc a Refferendwm yr UE	11
Llywio Datblygiad Polisi a Darpariaeth Gwasanaeth gydag Ymchwil Arloesol GIS	12
Marchnadoedd Llafur, Economeg Ranbarthol, Polisi Cyhoeddus ac Economi Cymru	13
Gwaith Maes y Gymdeithas Sifil yng Ngogledd Ddwyrain Cymru	14
Rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD yn Datgelu Heriau Cydraddoldeb Rhywedd Ledled Pum Is-ranbarth y Cenhedloedd Unedig yng Affrica	14
Arloesi Cymdeithasol mewn Gofal Cartref i Bobl Hŷn	15
Digwyddiadau WISERD	16
Cyhoeddiadau	19



Cyflwyniad

Mae Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) yn sefydliad ymchwil gwyddorau cymdeithasol cenedlaethol. Gan ystyried safbwyntiau cymharol a hydredol, a defnyddio dulliau arloesol, mae'n cynnal ymchwil rhyngddisgyblaethol ac ymchwil sy'n berthnasol i bolisi ar draws meysydd economeg, cymdeithaseg, daearyddiaeth a gwyddoniaeth wleidyddol.

Dyma'r ganolfan ymchwil gyntaf o'i fath yng Nghymru, ac mae'r sefydliad yn fenter gydweithredol rhwng Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe, ac mae ganddo gytundebau cydweithredol gyda saith o brifysgolion eraill yn y DU. Hefyd mae ganddo gysylltiadau rhyngwladol cryf.

Gan ymgorffori ystod eang ac amrywiol o raglenni ymchwil, mae WISERD yn gartref i ddwy ganolfan wedi'u hariannu gan ESRC a'i nod yw cynnig llwybrau pwysig at allbynnau ymchwil ac effaith ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) nesaf.

Mae llwyddiannau WISERD hyd yma wedi cael eu cydnabod yn ddiweddar gan yr Adolygiad Diamond. Nododd yr adolygiad fod WISERD yn adnodd o bwys i Gymru, ac awgrymodd ei fod yn derbyn cyllid craidd.

O ystyried graddfa a chyrhaeddiad gweithgareddau WISERD, a bod llawer ohonynt yn parhau i ddatblygu, bwriad y cyhoeddiad hwn yw cynnig trosolwg o brif fentrau WISERD a'r allbynnau sydd wedi digwydd dros y 18 mis diwethaf.

Nododd yr Adolygiad Diamond fod WISERD yn adnodd o bwys i Gymru, ac awgrymodd ei fod yn derbyn cyllid craidd.

Cyrhaeddiad Ymchwil WISERD

Mae WISERD wedi datblygu rhwydweithiau rhyngwladol cryf ac mae'n gwneud gwaith ymchwil sylweddol mewn gwahanol wledydd a lleoliadau. Yn 2016, croesawodd WISERD nifer o ymwelwyr rhyngwladol a wnaeth gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau cydweithredol.

Roedd y rhain yn cynnwys yr Athro Merrill D. Silverstein o Brifysgol Syracuse, yr Athro Filippo Barbera o Brifysgol Torino, John Edwards o Brifysgol St. Francis Xavier yng Nghanada, yr Athro Sarbeswar Sahoo o Sefydliad Technoleg India yn Delhi, yr Athro Jonathan Pratschke o'r Adran Economeg ac Ystadegau (DISES) ym Mhrifysgol Salerno yn yr Eidal.

Bu i'r Athro David Grusky o Adran Cymdeithaseg Prifysgol Stanford, yr Athro Mike Hout o Adran Cymdeithaseg Prifysgol Efrog Newydd, a'r Athro Matthew Snipp o Adran Cymdeithaseg Prifysgol Stanford, i gyd gyflwyno annerchiadau yng Nghynhadledd Flynyddol WISERD 2016.





WISERD wedi'i amlygu fel 'adnodd o bwys' yn Adolygiad Diamond

Cafodd cyfraniad WISER fel adnodd o bwys ei gydnabod yn ddiweddar gan yr Adolygiad Diamond Annibynnol. Comisiynwyd yr Adolygiad o Gyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru yn 2014 o dan arweiniad yr Athro Syr Ian Diamond.

**“MAE WISERD WEDI
DATBLYGU’N ADNODD O
BWYS AR GYFER
TROSGLWYDDO
GWYBODAETH AR DRAWS
AMRYWIAETH EANG O
WYDDORAU
CYMDEITHASOL.”**

Roedd yr Adolygiad Diamond yn canolbwyntio ar ehangu mynediad, cefnogi anghenion sgiliau Cymru, cryfhau darpariaeth rhan-amser ac ôl-raddedig yng Nghymru, a chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Roedd hefyd yn asesu’r arian sydd ar gael ar gyfer ymchwil o safon a throsglwyddo gwybodaeth.

Am gyfraniad WISERD, dywedodd yr Adolygiad Diamond: "...mae'n amlwg bod WISERD yn adnodd pwysig ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ar draws ystod eang o'r gwyddorau cymdeithasol."

Aeth yr Adolygiad Diamond ymhellach i argymhell: "Dylai Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) gael arian craidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar bolisiâu cymdeithasol, dros gyfnod o bum mlynedd, gan ddisgwyl y bydd y rhan fwyaf o'i arian yn dod o brosiectau."

Proffil Incwm WISERD

Mae gan WISERD hanes rhagorol o ennill cyllid ymchwil cystadleuol.

Mae **Ffigur 1** yn dangos proffil y cyllidwyr hyd yma ac mae **Ffigur 2** yn dangos yr incwm ymchwil ers dechrau WISERD, wedi'i ragamcanu hyd at 2021.




Ffigur 1



Cyfanswm incwm ymchwil WISERD hyd yma: £24,950,727

Ffigur 2



Prosiectau wedi eu Hariannu gan WISERD

Mae ymchwil WISERD yn cynnwys amrywiaeth o ganolfannau wedi'u hariannu a themâu sylweddol. Mae hyn yn datblygu dros amser wrth i WISERD fodloni ei amcanion strategol ac wrth iddo ymateb i'r amgylchedd polisi ac ymchwil. Mae **Ffigur 3** yn dangos lledaeniad ymchwil a ariannwyd gan WISERD yn Hydref 2016.

Mae **Cymdeithas Sifil WISERD** yn ganolfan ymchwil a ariennir gan yr ESRC sy'n ymgymryd â rhaglen pum mlynedd o ymchwil amlddisgyblaethol, a pherthnasol i bolisi sy'n mynd i'r afael â chymdeithas sifil yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Mae **Horizon 2020 IMAJINE** (Mecanweithiau Integreiddiol i Fynd i'r Afael Â Chyfiawnder Gofodol ac Anghydraddoldebau Tiriogaethol yn Ewrop) yn brosiect mawr sy'n cael ei ariannu'n allanol ac sy'n mynd i'r afael â chyfiawnder gofodol ac anghydraddoldebau tiriogaethol (gallwch ddarllen mwy ar dudalen 8).

Nod y prosiect **Gwledig-Byd-eang** yw hybu ein dealltwriaeth o brosesau ac effeithiau globaleiddio mewn rhanbarthau gwledig drwy ddatblygu a defnyddio dulliau newydd cysyniadol a methodolegol.


Mae'r **Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W)** yn un o bedair canolfan genedlaethol sydd wedi'u sefydlu yn y DU gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), sy'n defnyddio technoleg arloesol i gysylltu a dadansoddi data gweinyddol dienw i helpu i lywio ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd, economi a chymdeithas yn y DU.

Ariennir **Addysg WISERD** gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Nod y prosiect yw ymgymryd ag ymchwil er mwyn cynnal a gwella ansawdd dysgu, a safonau addysgu ac addysg athrawon yng Nghymru.

Mae **Gwella Profiad Dementia a Gwella Bywyd Actif (IDEAL)** yn brosiect sy'n canolbwyntio ar y potensial o fyw'n dda gyda dementia o safbwynt y bobl sydd â dementia a'u gofalwyr sylfaenol.

Cyfanswm gwerth y gwaith ymchwil parhaus yw £14 miliwn

Ffigur 3





Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru Newydd WISERD

Mae Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru yn ganolfan ymchwil rhyngddisgyblaethol newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda'r nod o ddatblygu ein dealltwriaeth o wleidyddiaeth gyfoes a'r gymdeithas yng Nghymru, yng nghyd-destun byd rhyng-gysylltiedig.

**BYDD Y GANOLFAN YN
CEFNOGI AC YN GWNEUD
YMCHWIL O'R RADD FLAENAF
YN Y GWYDDORAU
CYMDEITHASOL, AC YN
CYFRANNU AT DDATBLYGIAD
GWYBODAETH,
TRAFODAETHAU A PHOLISI
CYHOEDDUS YNG NGHYMURU.**

Mae'r Ganolfan yn adeiladu ar enw da sefydledig Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n dod â daearyddwyr, gwyddonwyr gwleidyddol, seicolegwyr a haneswyr ynghyd o Sefydliad Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg, a gwyddonwyr cymdeithasol o unrhyw adrannau cysylltiedig yng Nghymru.

Mae gweithgareddau ymchwil y ganolfan yn canolbwyntio ar dair thema allweddol, gyda rhyngweithio rhyngddisgyblaethol a chydweithio drwy gyfrwng seminarau a grwpiau darllen.

Themâu allweddol:

- Llywodraethu, Cyfranogiad a Chymdeithas Sifil
- Iaith a Diwylliant
- Cysylltiadau Byd-eang

Mae'r Ganolfan yn gartref i dri phrosiect ymchwil mawr a ariennir yn allanol:

- Canolfan ymchwil y Gymdeithas Sifil/ESRC WISERD
- Prosiect GWLEDIG-BYD-EANG y Cyngor Cefn Gwlad Ewropeaidd
- Prosiect Horizon 2020 IMAJINE (Mecanweithiau Integreiddiol i Fynd i'r Afael â Chyfiawnder Gofodol ac Anghydraddoldebau Tiriogaethol yn Ewrop)

Ei nod yw defnyddio ymchwil ar wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru, astudiaethau cymharol am Gymru a chenhedloedd a rhanbarthau eraill, a dadansoddiadau o gysylltiadau byd-eang Cymru, i wneud cyfraniadau arloesol arwyddocaol yn rhyngwladol, i ddamcaniaethau, trafodaethau a llenyddiaeth y gwyddorau cymdeithasol.

Mae ymgysylltiad y cyhoedd yn ganolog i ethos y ganolfan, gan barhau â gweithgareddau hirsefydlog poblogaidd Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru, gan gynnwys Darlith Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru Blynyddol, a digwyddiadau cyhoeddus yn Aberystwyth a ledled Cymru. Mae aelodau'r ganolfan hefyd yn rhannu eu harbenigedd drwy gyfryngau digidol a chymdeithasol.

Cyd-Gyfarwyddwyr: Dr Anwen Elias a'r Athro Michael Woods
Arweinwyr Thema: Dr Taulant Guma, Dr Elin Royles a Dr Lucy Taylor

Cefnogir addysg ar wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru, hyfforddiant y gwyddorau cymdeithasol a meithrin capasiti drwy wneud y canlynol:

- Mentora myfyrwyr PhD, gan gynnwys fel rhan o Ganolfan Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC
- Cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus unigryw
- Yr MA mewn Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru a ail-lansiwyd yn ddiweddar

CYDWEITHREDIADAU RHYNGDDISGYBLAETHOL A RHYNG-SEFYDLIADOL

Mae Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru WISERD hefyd yn gweithredu fel cangen WISERD yn Aberystwyth, gan gynnig cysylltiadau gyda gwyddonwyr cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Abertawe, gyda chyfleoedd i adeiladu capasiti ymchwil drwy gydweithio rhyngddisgyblaethol a rhyng-sefydliadol, hyfforddiant a gweithdai adeiladu capasiti, a dull cydgysylltiedig o ymgysylltu gyda'r cyhoedd ac effaith polisi.

IMAJINE – Llwyddiant Ariannu Horizon 2020

Mae WISERD Aberystwyth wedi bod yn llwyddiannus mewn cynnig Ewropeaidd am gyllid Horizon 2020 ar gyfer prosiect am anghyfiawnder gofodol ac anghydraddoldebau tiriogaethol: *'Mecanweithiau Integreiddiol i Fynd i'r Afael â Chyfiawnder Gofodol ac Anghydraddoldebau Tiriogaethol yn Ewrop (IMAJINE)'*, a ddechreuodd ym mis Ionawr 2017.

Mae'r prosiect yn ymdrin â'r themâu canlynol: *'Cydlyniant Tiriogaethol, Cyfiawnder Gofodol ac Undod yn Ewrop' a 'Rhanbartholdeb, Mater o Gydraddoldeb Gwleidyddol a Chymdeithasol?'* Mae'n integreiddio data a dadansoddiad o'r ddwy thema i ddatblygu casgliadau ac argymhellion cyffredinol.

Amcan craidd IMAJINE yw llunio mecanweithiau polisi integreiddiol newydd i alluogi asiantaethau Llywodraeth Ewropeaidd, genedlaethol a rhanbarthol i ymdrin ag anghydraddoldebau tiriogaethol yn yr Undeb Ewropeaidd yn fwy effeithiol, ac i ddychmygu dyfodol ar gyfer rhanbarthau Ewrop lle mae dosbarthiad adnoddau yn gyson ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a gofodol.

Y tîm rhyngddisgyblaethol yn Aberystwyth yw yr Athro Michael Woods, yr Athro Rhys Jones, Dr Anwen Elias, Dr Elin Royles a Dr Maria Plotnikova. Mae cyfanswm y grant ychydig yn llai na €5 miliwn gyda €1.2 miliwn yn dod i Brifysgol Aberystwyth.

IMAJINE
€5m

WISERD
ABERYSTWYTH
€1.2m



Cyllid Seilwaith Ymchwil (RIF) ar gyfer Addysg WISERD

Mae Addysg WISERD wedi derbyn £215,000 o gyllid gan Brifysgol Caerdydd ar gyfer parhau gydag Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS).

*"YR WYF YN CROESAWU'R
CYHOEDDIAD HWN. MAE
CASGLU BARN PLANT A PHOBL
IFANC YN BWYSIG I'N HELPU I
DDATBLYGU POLISIÂU A
GWASANAETHAU YNG
NGHYMRU SY'N DIWALLU EU
HANGHENION."*

Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Mae'r arian gan Brifysgol Caerdydd yn adeiladu ar grant £1m gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i wella'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru i gynnal gwaith ymchwil addysgol o safon, ac i wella ansawdd dysgu yng Nghymru.

Mae dros 1,200 o ddisgyblion mewn mwy na 30 o ysgolion ledled Cymru wedi cymryd rhan yn Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS) hyd yma. Astudiaeth hydredol yw hon, sy'n olrhain sampl o ddisgyblion ar wahanol adegau. Hyd yma, cafwyd pedair ymgyrch flynyddol i gasglu data o bedair carfan gyda disgyblion wyth, 10, 12 a 14 oed. Bydd y data a gesglir yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ymchwilwyr academiaidd, llunwyr polisiâu ac athrawon.

Hyd yma, mae dros 1,200 o ddisgyblion mewn mwy na 30 o ysgolion ledled Cymru wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil, a elwir yn Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS).

Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwerthusiad diweddaraf ei Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) - rhaglen lle mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i ysgolion ar gyfer plant mewn gofal a'r disgyblion hynny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Ipsos MORI a WISERD yn dangos fod:

- Athrawon yn credu fod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddisgyblion targed ac maen nhw'n adrodd am welliannau sylweddol mewn graddau Saesneg a Mathemateg o ganlyniad
- Mae ysgolion yn defnyddio systemau fwyfwy soffistigedig i sicrhau bod y grant yn cyrraedd y disgyblion y mae wedi'i ddylunio i'w helpu
- Mae ysgolion yn defnyddio'r grant i gynyddu'r nifer o gynorthwyrwyr addysgu a sgiliau cynorthwyrwyr addysgu sy'n gallu gweithredu rhoi ymyriadau ar waith a fydd yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad
- Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae cyfraddau gwella disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ym mhynciau Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg bron ddwbl cyfraddau'r disgyblion eraill
- Mae gwelliant o ran presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi cyflymu ers cyflwyno'r grant.

"ER BOD CYNNYDD YN CAEL EI WNEUD, MAE'R BWLCH YN DAL YN LLAWER RHYEANG. RHAI'D I NI BARHAU I WEITHIO I'W DORRI I LAW'R."

Dywedodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar y pryd, Huw Lewis: "Mae torri'r ddolen ystyfnig honno rhwng tlodi a chyrhaeddiad isel bob amser wedi bod yn flaenoriaeth i mi, nid wyf yn derbyn y dylai llwyddiant person ifanc mewn bywyd gael ei bennu gan gyfoeth ei deulu.

"Mae'n galonogol iawn gweld yr ystadegau hyn a'r adroddiad gwerthuso sy'n dangos bod ein polisïau i gau'r bwlch ac i godi perfformiad disgyblion o deuluoedd llai cefnog yn gwneud gwahaniaeth go iawn a sylweddol.

"Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae'r bwlch yn dal yn llawer rhyeang. Rhaid i ni barhau i weithio i'w dorri i lawr fel y gallwn sicrhau fod ein dysgwyr, gan gynnwys y rhai o deuluoedd llai cefnog yn cael pob cyfle i lwyddo a chyflawni eu potensial mewn bywyd."

Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn raglen lle mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i ysgolion ar gyfer plant mewn gofal a'r disgyblion hynny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Ymchwil Ehangu Mynediad

Datblygwyd canllawiau'r Gwerthusiad Ehangu Mynediad at Addysg Uwch gan WISERD fel rhan o ymchwil a ariannwyd yn rhannol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Lansiwyd y canllawiau yn 2016 a chawsant eu canmol gan Huw Lewis, Gweinidog yn Llywodraeth Cymru bryd hynny, fel un o'r dadansoddiadau mwyaf defnyddiol o Ehangu Mynediad a welodd o'r DU.

Pobl Ifanc a Refferendwm yr UE

CANFYDDIADAU

Canfu'r prosiect WISERD, *Pobl Ifanc a Refferendwm yr UE*, drwy ymgysylltu â phobl ifanc cyn, yn ystod, ac ar ôl y refferendwm fod:

- Bron i ddwy ran o dair o bobl dan 30 o blaid Aros, o'i gymharu â llai na thraean o bobl dros 65 mlwydd oed.
- Yn groes i honiadau bod pobl ifanc yn dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am refferendwm yr UE, dywedodd 57% eu bod yn defnyddio teledu fel eu prif ffynhonnell o wybodaeth; roedd 35% yn defnyddio Facebook ac 17% yn unig yn defnyddio Twitter.
- Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ymddiried mewn gwybodaeth gan yr ymgyrch i Aros na'r ymgyrch i Adael: Dywedodd 35% ei bod yn ymddiried mwy yn negeseuon Aros na Gadael, o'i gymharu â 17% oedd yn ymddiried mwy yn yr ymgyrch Gadael na'r Aros. Fodd bynnag, nid oedd un o bob tri yn ymddiried yn unrhyw un.

DIGWYDDIAD: POBL IFANC, GWLEIDYDDIAETH A CHYFEIRIAD YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC YN Y DYFODOL YNG NGHYMRU

Cynhaliwyd y digwyddiad WISERD, *Pobl ifanc, gwleidyddiaeth a chyfeiriad ymgysylltu â phobl ifanc yng Nghymru*, yn adeilad y Pierhead mewn partneriaeth â Llais Ifanc a Chyngor Cymru ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS), wedi'i noddi ar y cyd gan Alun Davies AC, Bethan Jenkins AC, Darren Millar AC ac wedi'i gefnogi gan Dim Ymgysylltu Ieuenctid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhannwyd canfyddiadau'r ymchwil drwy sgrinio dwy ffilm fer – wedi'i greu ar gyfer ymarferwyr ac wedi'i wneud gyda phobl ifanc.



Dr Sioned Pearce, digwyddiad Pobl Ifanc, Gwleidyddiaeth a Chyfeiriad Ymgysylltu Â Phobl Ifanc yn y Dyfodol



Sgrinio dwy ffilm fer

PENDERFYNIAU A WNAED GYDA PHOBL IFANC

Dywedodd Christian Webb o Llais Ifanc am y digwyddiad: "Mae gweithio gyda WISERD yn dangos beth y gallwn ei gyflawni wrth ddod ag ymchwilwyr, ymarferwyr ieuenctid a phobl ifanc at ei gilydd. Bydd trafodaethau heddiw yn ceisio gosod y sylfeini ar sut rydym yn ymgysylltu â phobl ifanc yn y dyfodol. Mae penderfyniadau yn fwy effeithiol a chynaliadwy pan maen nhw'n cael eu gwneud gyda phobl ifanc yn hytrach nag ar gyfer pobl ifanc. Dyma'r ethos a ddylai lywio llywodraethau, gwneuthurwyr penderfyniadau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc wrth i ni fapio ein lle newydd yn Ewrop."

Mae'r prosiect yn datblygu'r gwaith hwn drwy edrych ar ymgysylltiad pobl ifanc â gwleidyddiaeth yn gyffredinol a'r gwersi y gellir eu dysgu yn dilyn ymgyrchoedd Refferendwm yr UE a phleidleisio.

Llywio Datblygiad Polisi a Darpariaeth Gwasanaeth gydag Ymchwil Arloesol GIS

Mae ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol De Cymru yn mesur a mapio lefelau mynediad daearyddol at wasanaethau cyhoeddus a phreifat hanfodol gyda modelau soffistigedig a adeiladwyd gan ddefnyddio technoleg Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS).

Cafwyd **cydnabyddiaeth academiaidd** ar ffurf cyflwyniadau mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys cyflwyniad yng *Ngholocwium Ewropeidd Daearyddiaeth Ddamcaniaethol a Meintiol*, a gynhaliwyd yn Bari, yr Eidal ym mis Medi 2015, wedi'i ariannu gan yr Arolwg Ordians ar gyfer efrydiaeth PhD ac am raglen cyfnewid gwybodaeth ddilydol, a phapurau wedi'u cyhoeddi mewn cyfnodolion rhyngwladol gan gynnwys *Health and Place*, y prif gyfnodolyn ym maes daearyddiaeth iechyd.

Cydnabyddir **arwyddocâd y polisi ymchwil** hwn gan Lywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn ystyried defnyddio'r un dull wrth ddiweddarau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o ran Mynediad at Wasanaethau ar gyfer 2017/2018. Gwnaed cyflwyniadau i swyddogion Llywodraeth Cymru oedd yn tynnu sylw at fanteision y dull gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo sgoriau hygrychedd. Yn ogystal â hynny, mae perthnasedd ymarferol a pherthnasedd polisi uniongyrchol yr ymchwil hwn yn cael ei ddangos gan y tri phrosiect mawr canlynol, sydd naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill o fis Medi 2016.



Mapio Mynediad i Seilwaith Chwaraeon

Mae ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol De Cymru wedi datblygu offer meddalwedd sy'n cynnig rhyngwyneb hawdd ei ddefnyddio i ganiatáu unigolion heb fedr GIS i gyfrifo amrywiaeth o fesurau hygrychedd cymhleth. Gan weithredu ar gronfa ddata gofodol penodol o gyfleusterau chwaraeon, data economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o'r cyfrifiad a rhwydwaith trafnidiaeth wedi'i strwythuro, gellir defnyddio mynegeion allbynnau canlyniadol i ymchwilio i amrywiadau gofodol yn seilwaith chwaraeon Cymru. Ariannwyd y gwaith ymchwil hwn gan **Chwaraeon Cymru** o dan y fenter Illuminate.



Mapio Gofal Cancer

Mae ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol De Cymru yn ymchwilio i'r cyfleoedd sy'n bodoli i drosglwyddo offer sydd wedi'u datblygu ar hyn o bryd ar gyfer pecynnau meddalwedd perchnogol a datrysiadau ffynhonnell agored gyfwerth i beiranyddion, yn benodol i fesur mynediad at sgrinio cancer, a rheoli a chynllunio gwasanaethau cefnogi cancer. I hybu'r amcanion hyn ymhellach, dechreuodd efrydiaeth PhD wedi'i ariannu gan KESS II mewn cydweithrediad â **Tenovus Cancer Care** ym mis Hydref 2016 gyda'r nod o ehangu argaeledd offer ymchwil dadansoddol y gellir eu defnyddio i gefnogi dadansoddwyr iechyd wrth gynllunio darpariaeth y gwasanaethau cancer yng Nghymru.



Mapio Gofal Plant ar gyfer Llundwyr Polisi

Mae ymchwilwyr WISERD ym Mhrifysgol De Cymru wedi bod yn archwilio defnydd o offer a thechnegau tebyg yn rôl dadansoddi'r bwlch mewn gofal plant. Mae **Llywodraeth Cymru** wedi gwneud ymrwymiad polisi yn ei raglen waith, '*Symud Cymru yn ei blaen 2016-2012*', i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim ar gyfer rhieni i blant tair a phedair mlwydd oed sy'n gweithio, 48 wythnos y flwyddyn. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi penodi ymchwilwyr WISERD i ymgymryd â dadansoddiad o ddisbarthiad presennol y ddarpariaeth gofal plant o'i gymharu â galw posibl. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl defnyddio'r canfyddiadau a ddaw o'r dadansoddiadau hyn i fynd i'r afael â bylchau posibl yn y ddarpariaeth gofal plant, i'w helpu i reoli gweithredu polisi, ac i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Marchnadoedd Llafur, Economeg Ranbarthol, Polisi Cyhoeddus ac Economi Cymru

Mae economegwyr marchnad lafur wedi ymddangos yn aml yn y cyfryngau yn ddiweddar yn sôn am feysydd ymchwil WISERD mewn perthynas â'r diwydiant dur, gwaith a Chymru.

"Rydym yn debygol o gael diwydiant mwy llwyddiannus os ydym yn aros yn yr UE" David Blackaby, adroddiad Euronews (Ffrainc).

Cyfwelodd Sky News yr Athro David Blackaby, a ddisgrifiodd dur fel "diwydiant strategol, diwydiant sylfaenol", sydd yn hanfodol os ydym am gael diwydiant gweithgynhyrchu yn y wlad hon.



WISERD yn cael sylw yn y cyfryngau

Ymddangosodd sylwadau'r Athro David Blackaby ar yr argyfwng dur yn: Fox News Network (UD), The Republic (UD), The Salt Lake Tribune, The New Delhi Times, NDTV.com, The Economic Times a The Financial Express (India).

Darlledwyd yr Athro Stephen Drinkwater fel rhan o adroddiad ar Share Radio ynglŷn a os fyddai gostyngiad yn nifer y mewnfudwyr sgiliau isel o'r UE yn niweidio economi'r DU.

Darlledwyd barn yr Athro David Blackaby ar ddyfodol Tata Steel ar 26 o sianelau a gorsafoedd radio'r BBC, gan gynnwys BBC News 24, News at Six, Radio 2, Radio 4, Radio 5 Live, Radio Wales, Radio Scotland, Radio London a Radio Jersey.

Mae gwaith diweddar ymchwilwyr WISERD ar faterion cyflogaeth yn cynnwys pennod yn y llyfr, *'Unequal Britain at Work'*, wedi'i olygu gan Alan Felstead, Duncan Gallie, a Francis Green, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Awst 2016 gan Oxford University Press. Awdur y bennod, dan y teitl *'Is the Public Sector Pay Advantage Explained by Differences in Work Quality?'* oedd David Blackaby, Alan Felstead, Melanie Jones, Gerry Makepeace, Phil Murphy a Victoria Wass.

Roedd ymchwil gan WISERD hefyd yn sail i ddwy o'r pedair astudiaeth achos a gyflwynwyd i REF2014 gan Brifysgol Abertawe i'r Panel Busnes a Rheoli. Nododd adborth a roddwyd i'r brifysgol gan y panel hwn fod effaith o'r ddau astudiaeth achos hyn yn rhagorol o ran eu cyrhaeddiad ac arwyddocâd.

Gwaith Maes y Gymdeithas Sifil yng Ngogledd Ddwyrain Cymru

Mae aelodau o dîm ymchwil Cymdeithas Sifil WISERD ym Mhrifysgol Bangor yn cynnal astudiaeth barhaus i brofiadau cyfranogiad dinesig ar ddau safle gwaith maes yng ngogledd ddwyrain Cymru.



Hyd yma, maent wedi mapio grwpiau cymdeithas sifil leol ac wedi cynnal arolwg o'r boblogaeth leol. Drwy gasglu hanesion bywyd gan bobl sy'n weithgar mewn cymdeithasau lleol, maen nhw wedi ymgysylltu â grwpiau a digwyddiadau ym mhob safle.

Rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD yn Datgelu Heriau Cydraddoldeb Rhywedd Ledled Pump Is-ranbarth y Cenhedloedd Unedig yn Affrica

Mae ymchwil gan Gyd-Gyfarwyddwr WISERD, yr Athro Paul Chaney yn archwilio mewnbyn sefydliadau'r gymdeithas sifil i weithrediad gwladwriaethau Affricanaidd o'r nodau prif ffrydio rhywedd a nodwyd yn Natganiad Beijing y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r athro Chaney yn dadlau nad yw'r arfer cyfredol yn defnyddio model democrataidd cyfranogol o ran hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu, er gwaethaf y ffaith fod prif ffrydio rhywedd yn cynrychioli cyfle i ddefnyddio fframwaith economaidd gwleidyddol ffeministaidd ar gyfer datblygu yn Affrica.

Mae'r canfyddiadau'n datgelu gwahaniaethau allweddol yn y ffordd mae sefydliadau gwladwriaeth a chymdeithas sifil yn fframio materion cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

At hynny, mae'r dadansoddiad yn datgelu materion am eglurder cysyniadol a rhwyg yn y broses o flaenoriaethu materion rhywiau allweddol megis tlodi, anghydraddoldeb economaidd a datrys gwrthdaro.



Chaney, P. 2016. Mind the Gap? Gender Equality and Civil Sphere in Africa: Analysis of Policy Discourse on the Beijing Declaration 2003-15. Review of African Political Economy 43 (150), pp. 608-629. doi: 10.1080/03056244.2016.1170675.



Arloesi Cymdeithasol mewn Gofal Cartref i Bobl Hŷn

Cydweithiodd Cyfarwyddwr WISERD, yr Athro Ian Rees Jones, ar adroddiad y Ganolfan Ymchwil ar Newid Cymdeithasol-Ddiwylliannol (CRESC) ar arloesi mewn gofal yn y cartref a gafodd ei lansio yn Symposiwm *Fairer Futures: Reshaping Care for Older People*.

Wedi'i gyhoeddi i gyd-fynd â'r symposiwm, cydweithrediad rhwng Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Iechyd Ysgol Fusnes Alliance Manchester, WISERD, y Ganolfan Ymchwil Tegwch yn y Gwaith a Sefydliad Manceinion ar gyfer Ymchwil Gydweithredol i Heneiddio, mae'r adroddiad yn dadlau nad yw bwriadau da yn unig yn ddigon da mewn gofal oedolion.


Dengys y canfyddiadau fod y wladwriaeth ganolog a'r gymuned arbenigol wedi hybu nodau teilwng personoleiddio gofal a chomisiynu sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dadlau bod gofal cymdeithasol i oedolion yn sector sydd bellach yn wynebu argyfyngau lluosog (yn rhannol o ganlyniad i doriadau llym): mae argyfwng ariannol o ran toriadau mewn gwasanaethau, ansawdd gofal argyfwng, argyfwng recriwtio a chadw gweithlu ac argyfwng darparwr sy'n deillio o elw cyfyngedig.

Dyma'r cyntaf o ddau adroddiad ar ofal cymdeithasol sydd wedi bod yn seiliedig ar ymchwil gofal cymdeithasol WISERD. Mae'r adroddiad cynharach, *'Where does the money go? The financialised chains and the crisis in social care'*, a nodwyd yn rhifyn Rhagfyr 2016 o *Private Eye*, yn edrych ar ddyraniad arian mewn cartrefi gofal. Mae'n defnyddio ymchwil dilyn arian i ddangos nad yw rhoi mwy o arian gwladol ei hun yn ateb, gan fod perchenogion y cadwyni gofal yn fedrus o ran tynnu arian allan. Mae'r ddau adroddiad wedi'u derbyn yn dda yn Llywodraeth Cymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu ymchwil pellach sy'n berthnasol i ymchwil yn y maes hwn.

CRESC Public Interest Report
September 2016

WHY WE NEED SOCIAL INNOVATION
IN HOME CARE FOR OLDER PEOPLE

Diane Burns, Joe Earle, Peter Folkman, Julie Froud, Paula Hyde, Sukhdev Johal, Ian Rees Jones, Anne Killett, Karel Williams



CRESC Public Interest Report September 2016:
Why We Need Social Innovation in Home Care for Older People.

Adroddiad gan Diane Burns, Joe Earle, Peter Folkman, Julie Froud, Paula Hyde, Sukhdev Johal, Ian Rees Jones, Anne Killett a Karel Williams.

Digwyddiadau WISERD

Mae WISERD wedi ymrwmo i adeiladu capasiti yn y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Cyflawnir hyn drwy gyfres barhaus o weithdai, seminarau a chynadleddau, wedi'u hanelu at y rhai sydd â diddordeb yn y gwyddorau cymdeithasol.

CYNHADLEDD FLYNYDDOL WISERD 2016

Cynhaliwyd cynhadledd gwyddorau cymdeithasol fwyaf Cymru yng Nghampws newydd y Bae ym Mhrifysgol Abertawe Gorffennaf 2016. Roedd y seithfed digwyddiad blynyddol yn dod ag ymarferwyr, llunwyr polisïau a gwyddonwyr cymdeithasol gyda'u gilydd i drafod themâu fel iechyd; gofal cymdeithasol; lles; addysg; diwylliant a gwerthoedd; yr amgylchedd; marchnadoedd llafur; datganoli; a chymdeithas sifil – gyda dros 70 o bapurau'n cael eu cyflwyno.

Roedd pedwar prif siaradwyr yn denu sylw'r gynhadledd: Ottón Solís, Llywydd ac ymgeisydd arlywyddol dair gwaith i'r Blaid Gweithredu ar ran Dinasyddion (Partido Accion Ciudadana) yng Nghosta Rica; yr Athro Andrew Oswald, Athro Economeg, Prifysgol Warwick; Mike Hout, Athro Cymdeithaseg, Prifysgol Efrog Newydd; a David Grusky, Athro Cymdeithaseg, Prifysgol Stanford. Yn agor y digwyddiad roedd y cyn-Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan.



ADRC - SYMPOSIWM RHYNGWLADOL AR GYSYLLTIADAU DATA, *BIG DATA* OR *BIG RUBBISH*?

Mae WISERD yn gartref i gyfleuster gwasanaeth Ganolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W) yng Nghaerdydd ac mae'n gweithio gydag ymchwilwyr achrededig i hwyluso mynediad at ddata dienw, a chysylltu'r data hwn, ar themâu fel addysg, iechyd a data symudedd cymdeithasol, a nifer o gofnodion hirsefydlog eraill gan adrannau llywodraeth gwahanol. Fel rhan o'i lwyddiannau cymrodoriaeth rhyngwladol, cynhaliodd WISERD Symposiwm undydd rhyngwladol ar gysylltu data, *Big Data or Big Rubbish? The Contribution of Data Linkage to Social Science* ym mis Gorffennaf 2016.

UWCHGYNHADLEDD MARCHNAD LAFUR CYMRU 2016

Cynhaliodd swyddogion cyswllt WISERD ym Mangor, Dr Tony Dobbins a Dr Alex Plows, ail Uwchgyrhadled Marchnad Lafur Cymru ar y thema *Cymharu Ymyriadau Polisi i Herio 'Busnes Fel Arfer'*, a gynhaliwyd ym Mangor ym mis Medi.



Uwchgyrhadled Marchnad Lafur Cymru 2016

Mae Uwchgyrhadled y Farchnad Lafur yn ddigwyddiad cyfnewid gwybodaeth blyneddol wedi'i gynllunio fel llwyfan i gymharu, dadlau, a llywio ymyriadau polisi mewn ymateb i'r newid yn y farchnad lafur, yng Ngogledd Cymru yn bennaf, ond gyda chyfleoedd i gymharu ymyriadau cenedlaethol a rhanbarthol y farchnad lafur mewn mannau eraill yn y DU. Roedd y 60 o gyfranogwyr yn cynnwys rhanddeiliaid, ymarferwyr ac academyddion.

COLOCWIWM WISERD/CRESC ARLOESI CYMDEITHASOL RADICAL RHYNGWLADOL



Colocwium Arloesi Cymdeithasol Radical 2016.

Fel rhan o raglen Cymdeithas Sifil WISERD, trefnodd WISERD a'r Ganolfan Ymchwil ar Newid Cymdeithasol-Ddiwylliannol (CRESC) golocwium rhyngwladol ar y cyd ym Mhrifysgol Caerdydd ar gyfer academyddion, gwneuthurwyr polisiau a sefydliadau cymdeithas sifil sydd yn rhan o fentrau arloesi cymdeithasol: *Colocwium Arloesi Cymdeithasol Radical*, ym mis Mai 2016.

Roedd y digwyddiad yn dwyn ynghyd amrywiaeth eclecig o academyddion, ymarferwyr ac ymgyrchwyr i rannu gwybodaeth ac ymchwil ar draws ystod o themâu. Bwriedir creu casgliad wedi'i olygu, ac mae ail golocwium yn cael ei drefnu ar gyfer mis Mai 2017.

GWEITHDY MESUR LLES

Cynhaliodd WISERD digwyddiad cydweithredol ar ddealltwriaeth, mesur a hybu llesiant yng Nghanolfan Busnes Morgannwg Prifysgol De Cymru ym mis Mehefin 2015. Roedd y digwyddiad yn dwyn ynghyd gydweithwyr o Brifysgol De Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ymchwilwyr o wahanol gefndiroedd disgyblu. Roedd yn cynnig trafodaeth adeiladol ar y berthynas rhwng ymagweddau cysyniadol ac empirig ar les a mesur.

Mae llesiant, ei fonitro a'i hyrwyddo, wedi cael eu gwthio i flaen y gad o ran polisi a disgwrs cyhoeddus ehangach yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru, fel eraill mewn mannau eraill, yn ceisio pennu dangosyddion dibynadwy fel ffordd o olrhain rhan o'n bywydau na allai, ar yr wyneb, fod yn fwy pwysig. Mae'n ymddangos yn sylfaenol i lawer, neu bob agwedd arall ar fywyd cymdeithasol efallai. Fodd bynnag, gall y parodrwydd sy'n arwain at les guddio cymhlethdodau a heriau o ran sut rydyn ni'n ymdrin ag o.

Roedd y digwyddiad yn cynnig offer hanfodol i fynd i'r afael â lles yn y Gymru gyfoes, a fforwm trafod rhwng ymchwilwyr sy'n dod wyneb yn wyneb â'r heriau hyn o amrywiaeth o wahanol gyfeiriadau damcaniaethol a methodolegol.

DATHLIADAU PEN-BLWYDD 50 YSGOL Y GWYDDORAU CYMDEITHASOL YM MHRIFYSGOL BANGOR

Roedd WISERD yn bartner pwysig yn nathliadau pen-blwydd Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Bangor yn 50, 2016. Cyflwynodd cydweithwyr o WISERD sesiwn dan y teitl Cymunedau, Ieithoedd a Hunaniaethau a chynigodd Cyfarwyddwr WISERD, yr Athro Ian Rees Jones sylwadau ar ddiwedd y dydd. Roedd y digwyddiad yn arddangos cyfraniad yr ysgol i ymchwil y gwyddorau cymdeithasol yng Nghymru a thu hwnt.



Cinio Pen-blwydd Ysgol y Gwyddorau Prifysgol Bangor

Cyhoeddiadau

Mae WISERD yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd academiaidd, polisi ac ymarferwyr, gan gynnwys cylchlythyrau ac adroddiadau. Dyma rai enghreifftiau diweddar o ble y gallwch ddarllen rhagor am ymchwil WISERD:



Erthyglau mewn Cyfnodolion

Allouch, A. et al. 2015. L'éthique des élites scolaires. Du mérite à la responsabilité chez les étudiants de Sciences Po Paris et de l'Université d'Oxford. *L'Année Sociologique* 66 (1), pp. 193-224.

Brown, P. et al. 2016. Credentials, talent and cultural capital: a comparative study of educational elites in England and France. *British Journal of Sociology of Education* 37 (2), pp. 191-211.

Chaney, P. 2016. Civil Society and Gender Mainstreaming: Empirical Evidence and Theory-Building from Twelve Post-Conflict Countries. *World Development* 83, pp. 280-294.

Chaney, P. 2016. How does single party dominance influence civil society organisations' engagement strategies? Exploratory analysis of participative mainstreaming in a 'regional' European polity. *Journal of Public Policy and Administration* 31 (2), pp.122-146.

Clare, L. et al. 2016. "I Don't Think of It As An Illness": Illness Representations in Mild to Moderate Dementia. *Journal of Alzheimer's Disease* 51 (1), pp. 139-150. doi: 10.3233/jad-150794.

Davies, R. et al. 2016. Age and Work-Related Health: Insights from the UK Labour Force Survey. *British Journal of Industrial Relations* 54 (1), pp. 136-159.

Higgs, G. et al. 2015. Accessibility to sports facilities in Wales: A GIS-based analysis of socio-economic variations in provision. *Geoforum* 62, pp. 105-120. doi: 10.1016/j.geoforum.2015.04.010.

Langford, M. et al. 2016. Multi-modal two-step floating catchment area analysis of primary health care accessibility. *Health and Place* 38, pp. 70-81. doi: 10.1016/j.healthplace.2015.11.007.

Power, S. et al. 2016. Giving something back? Sentiments of privilege and social responsibility among elite graduates from Britain and France. *International Sociology* 31 (3), pp. 305-323.

Power, S. and Smith, K. 2016. Giving, Saving, Spending: What Would Children Do with £1 Million? *Children and Society* 30 (3), pp. 192-203. doi: 10.1111/chso.12132.

Yhnell, E. et al. 2016. The impact of attaining the Welsh Baccalaureate Advanced Diploma on academic performance in bioscience higher education. *International Journal of Science Education* 38 (1), pp. 156-169.



Penodau mewn Llyfrau

Chaney, P. 2016. Women and Policy-Making: Devolution, Civil Society and Political Representation. In: Mannay, D. ed. *Our Changing Land: Revisiting Gender, Class and Identity in Contemporary Wales*. Cardiff: University of Wales Press. Chapter 11.

Woods, M. 2015. Territorialisation and the assemblage of rural place: Examples from Canada and New Zealand. In: Dessein, J. et al. *Cultural Sustainability and Regional Development: Theories and Practices of Territorialisation*. Oxford: Routledge, pp. 29-42.



Llyfrau

Jones, M. et. al. eds. 2015. *People, Places and Policy: Knowing contemporary Wales through new localities*. Oxford: Routledge.

Smith, K. 2016. *Curriculum, Culture and Citizenship Education in Wales: Investigations into the Curriculum Cymreig*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.



www.facebook.com/wiserdnews



[@WISERDNews](https://twitter.com/WISERDNews)

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad gan WISERD Communications.

Mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ym mis Ionawr 2017.

Darparwyd y ddelwedd ar dudalen 7 gan Wikimedia Commons, parth cyhoeddus.

Darparwyd y ddelwedd ar dudalen 15 gan iStock.

Darparwyd y ddelwedd ar dudalen 18 trwy garedigrwydd Prifysgol Bangor, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol.

Am fwy o wybodaeth am WISERD, ewch ar: wiserd.ac.uk

Ar gyfer unrhyw ymholiad, e-bostiwch: WISERD.Comms@caerdydd.ac.uk

Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru

